# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 12 Mai, 2022
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Hughie Williams – Cadeirydd
Catherine Hughes
Tesni Jones
Dafydd Ll. Williams

Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams.

Cafwydd ymddiheuriadau gan:

Wynne Davies
Nia Wyn Jones
Rhys Jones
Einir Lewis
Gareth Roberts
Phil Roberts

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion 14 Ebrill, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni Wyn Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023 – wedi cysylltu â swyddfa'r Eisteddfod ac maent wedi cytuno i dderbyn £500 tuag at gystadleuaeth 'Côr yr Ŵyl' a £500 yr adeg yma flwyddyn nesaf. Wedi addo hefyd y bydd enw Cyngor Cymuned Buan yn y rhaglen. – Y siec heb fynd drwy'r banc.

Anfonwyd at Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd ynglŷn  â'r sbwriel oedd wedi ei adael ger Bryn Celyn, Rhydyclafdy – ond heb gael ateb i'r ebost.  Wedi eu ffonio a'r sefyllfa ar y 6ed o Fai oedd "eu bod wedi asesu y sefyllfa a bod trefniadau mewn lle i ddatrys y broblem".

3. Ymatebion i ohebiaeth

*Kids Cancer Charity* – Derbyniwyd llythyr gan yr elusen Kids Cancer Charity, Abertawe,  yn gofyn am gymorth ariannol.  Penderfynwyd nad yw'r Cyngor yn cyfrannu at elusennau os nad ydynt o fewn ardal y gymuned.

*Rhaglen Waith* Trafnidaeth *a Priffyrdd mis Mai 2022* – Er gwybodaeth adroddodd y Cadeirydd bod gwaith o atgyweirio ochr y ffordd ger Parciau, Madryn yn digwydd yn ystod Mis Mai.

4. Materion Ariannol

Derbynwid cysoniad y banc am y cyfnod 4 Ebrill, 2022 i 3 Mai, 2022 yn gywir yn y swm o £6,123.45c.
(Siec rhif 200661 a Siec 200664– Tu Hwnt i'r Afon heb fynd drwy'r banc)
(Siec rhif 200667 – Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd heb fynd drwy'r banc).

Praesept o £1875.00 wedi ei dderbyn.

Y sieciau isod wedi cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Cath Becket, Tu Hwnt i'r Afon | £20.00 | Siec Rhif 200668 |
| Bacstal (hyd at 31.12.2021) | £132.00 | Siec Rhif 200669 |
| Nerys Williams | £111.79 | Siec Rhif 200670 |
| Cyllid a Thollau (Mis 2) | £28.00 | Siec Rhif 200671 |

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Dafydd Llewelyn am ei waith trylwyr yn paratoi y fantolen 'Cyfrif Elw a Cholled 2021/2022' a'r fantolen 'Rhagolwg Elw a Cholled 2022/2023'.

5. Materion Cynllunio

Dim i'w adrodd.

9. Datgan Diddordeb

Dim i'w adrodd.

## 10. Unrhyw fater arall

*Goryrru drwy pentref Rhydyclafdy* – Soniodd y Cadeirydd bod cwynion wedi dod ers tro am y goryrru drwy bentref Rhydyclafdy. Mae llawer o blant o gwmpas ac mae hyn yn peryglu eu bywydau. Y tro diwethaf cafodd camera ei leoli yno, ond yn anffodus roedd i'w weld yn glir. 'Roedd y Clerc wedi anfon e-bost at yr adran drafniaieth nôl ym mis Mehefin, 2021 yn gofyn iddynt wneud arolwg o'r traffic sydd yn mynd drwy'r pentref. Cafwyd ymateb gan yr adran yr adeg hynny yn sicrhau y buasai'r Cyngor yn cynnal arolwg cyflymder yn yr ardal i ddeall pa fesurau fuasai'n ddigonol mewn ymdrech i arafu traffic, ac y buasent yn cysylltu â Cyngor Buan maes o law, ond does dim wedi cael ei wneud.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â hwy eto.

*Man Parcio Ceir ger rhes Tai'r Allt, Boduan* – Er gwybodaeth adroddodd y Cynghorydd Anwen Davies bod perchennog un o'r tai wedi creu man parcio ar dir dros ffordd i'w gartref ac mai tir yn eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru ydoedd. 'Roedd hi wedi cysylltu â Cyngor Gwynedd ac aelod o Cyfoeth Naturiol Cymru i adrodd am y sefyllfa.

*Pont Boduan* – Gofynnwyd i'r Cynghorydd Anwen Davies os oedd ganddi unrhyw syniad o ba bryd fuasai'r bont ym Moduan yn barod – ac adroddodd hi ei bod yn gobeithio y buasai ar agor cyn y Gaeaf.

*Hyfforddiant* - O 5 Mai 2022, bydd gan y cynghorau cymuned ddyletswydd i ystyried hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr ac mae angen cyhoeddi'r cynlluniau erbyn mis Tachwedd 2022.

*Defibs* – Soniwyd am yr angen i checio y Defibs bob tri mis ac mi gytunodd y Cynghorwyr Hughie Williams a Dafydd Llewelyn Williams wneud hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 p.m.

## 12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Nos Iau, 9 Mehefin, 2022, yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 p.m.